Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Environment and Sustainable Development

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Peter Morris
Tîm y CDLl
Cyngor Sir Powys
Neuadd Brycheiniog
Cambrian Way
Aberhonddu
Powys
LD3 7HR

30 Ebrill 2012

Eich cyf:: PS/LDP/PS2012
Ein Cyf.: PP030-02-019

**PARTHED: CYNLLUN DATBLYGU LLEOL POWYS (2011-2026): YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I YMGYNGHORIAD 15 Y STRATEGAETH A FFEFRIR**

Annwyl Mr Morris,

Diolch am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar ddogfennau cyn-adneuo Cynllun Datblygu Lleol Powys. Rydym yn falch o weld eich bod yn symud yn nes at gael cynllun datblygu ar gyfer eich ardal.

Cyfrifoldeb cyrff ymgynghori statudol a chyrff tebyg yw cyfrannu at Arfarniad Cynaliadwyedd (SA), gan gynnwys ymarferion Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) ac Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd, a chyfrifoldeb eich grŵp arbenigol yw eich cynorthwyo i asesu a ydynt yn addas at y diben. Yn ôl yr arfer, byddem yn eich annog i geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun i sicrhau eich bod wedi bodloni'r holl ofynion gweithdrefnol, gan gynnwys sgrinio ar gyfer SEA, gan mai eich Cyngor chi sy'n gyfrifol am y materion hyn.

Yn y gorffennol, cyflwynwyd ein sylwadau ar gyfnod drafft cyn-adneuo CDU ar ffurf gwrthwynebiadau penodol i fylchau yn y polisi, neu berthnasedd neu eiriad y polisi, a phe na ymdrinid â hwy wrth wneud newidiadau ar adeg adneuo neu cyn-ymchwiliad, byddai'r rhain yn cael eu hystyried gan yr Arolygydd wrth lunio'r argymhellion yn ei Adroddiad.

O dan y system newydd, cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw sicrhau bod CDLl a gyflwynir yn gadarn o ran gweithdrefn, ac yn corffori egwyddorion ymgysylltu cynnar â'r gymuned, tryloywder, cysondeb, cydlyniad a'i fod yn cydweddu â chynlluniau awdurdodau cyfagos. Os nad ymdriniwyd yn briodol â'r egwyddorion hyn yn ystod y camau cyntaf, efallai yr ystyrir na fydd y CDLl adnau yn gadarn ac na fydd yn addas i'w archwilio. Mae'n hanfodol bod eich cynllun adnau yn cynnwys polisïau sydd wedi'u geirio'n gryf, yn gywir ac yn

dda. Mae canllaw pellach wedi'i gynnwys yn CDLl Cymru a'r llawlyfr ar eirio polisïau.

Heb ragfarn i ddisgresiwn y Gweinidog i ymyrryd yn ddiweddarach yn y broses, nac i'r archwiliad annibynnol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu awdurdodau cynllunio lleol i leihau'r risg o gyflwyno dogfennau ansicr trwy gynnig sylwadau priodol yn ystod y camau cyntaf o baratoi'r ddogfen, ac yn arbennig yn ystod cyfnod ymgynghori cyn-adneuo Rheoliad 15. I wneud hyn, mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am dystiolaeth eglur sy'n bodloni'r deg prawf cadernid (fel y nodir yn 'CDLl Cymru' a'r 'Llawlyfr CDLl', ac a esbonnir ymhellach mewn canllawiau a gyhoeddir gan yr Arolygiaeth Gynllunio).

*(Dylech nodi y bydd angen derbyn ac ystyried cyngor a sylwadau gan Adrannau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynigion am ddarpar safleoedd neu agweddau ar asesiadau manwl o safleoedd.)*

Ar ôl ystyried yr holl ddogfennau a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Powys o dan Reoliad 15, rydym yn cydnabod faint o waith a wnaed gan yr awdurdod i gyrraedd y cam hwn. Er mwyn sicrhau bod eich awdurdod yn llunio cynllun cadarn yn y pen draw, rydym wedi darparu asesiad strategol o'r ddogfen y Strategaeth a Ffefrir (a gefnogir gan y dogfennau eraill a gyflwynwyd gennych). Nodwn lle nad yw'r dystiolaeth o gadernid yn eglur ar unwaith. Mae atodiad y llythyr hwn (Saesneg yn unig) yn nodi sylwadau manwl Llywodraeth Cymru ar y ddogfen y Strategaeth a Ffefrir; mae rhai sylwadau'n ymwneud â mwy nag un prawf cadernid, ac rydym wedi croesgyfeirio lle mae hynny'n fwyaf priodol.

Mae rhai materion sylweddol y bydd yn rhaid i chi ymdrin â nhw ymhell cyn i chi gynhyrchu cynllun adnau wedi'u hamlinellu isod. Awgrymwn, i gefnogi'ch gwaith o hunanasesiad ar gadernid, eich bod yn sicrhau:

≠ bod y cynigion a'r polisïau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun adnau yn ymateb i'r **amcanion/materion** a godwyd**;**
≠ bod y prif faterion yn cael eu symleiddio i gynnwys dim ond y rhai y gall y cynllun ymateb iddynt a mireinio'r amcanion, yn enwedig o ganlyniad i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol;
≠ ei bod yn glir sut y mae'r strategaeth yn ymateb i'r amcanion;
≠ bod y **weledigaeth** yn berthnasol i'ch ardal leol chi;
≠ bod y **dystiolaeth** sydd ar y gweill yn hysbysu'r cynllun adnau;
≠ eich bod yn dangos sut mae materion **polisi cenedlaethol** (fel tai fforddiadwy, llifogydd, newid yn yr hinsawdd, argaeledd seilwaith, materion amgylcheddol/tirwedd; gwastraff, etc) wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Strategaeth a Ffefrir;
≠ bod y strategaeth yn nodi maint y datblygiad a gynigir yn y prif aneddiadau ac ardaloedd gwledig. Ni ddylai'r cynllun adnau hybu **datblygiadau yn nghefn gwlad agored** a fyddai'n niweidio'r tirwedd gwledig;
≠ bod unrhyw wyriad oddi wrth ffigyrau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar boblogaeth a thai yn cael ei gyfiawnhau, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn gyfredol. **Rydym yn gwrthwynebu'r lefel isel o ddarpariaeth tai** a diffyg cyfiawnhad presennol ar gyfer y gwyriad hwn oddi wrth ein hamcanestyniadau ar sail 2008. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer diwallu anghenion, cyflawni ar y materion/amcanion a gallu'r cynllun i ymateb i

amgylchiadau sy'n newid. **Ni fyddai ymateb o'r fath yn gwneud y gorau ar gyfer darparu tai fforddiadwy.**

- ≠ bod cysylltiad clir rhwng anghenion tir ar gyfer tai a chyflogaeth gan sicrhau fod cysylltiad rhwng yr ymrwymiadau a dyraniadau â'r strategaeth ofodol/ hierarchaeth o'r aneddiadau;
- ≠ ei bod hi'n glir sut y dewiswyd y strategaeth a ffefrir ac y gellir dangos sut y bu i'r opsiynau **eu hasesu'n gyson** yn erbyn amcanion ac asesiadau'r cynllun, fel yr arfarniad o gynaliadwyedd/asesiad amgylcheddol strategol/asesiad rheoliadau cynefinoedd, asesiad o'r iaith Gymraeg, asesiad ynni, asesiadau teithio ac ati. Mae angen egluro sut mae goblygiadau yn sgil gyfyngiadau sylweddol (e.e. perygl o lifogydd), argaeledd seilwaith (capasiti dros ben), cynlluniau awdurdodau cyfagos etc wedi dylanwadu ar y strategaeth
- ≠ eich bod yn egluro sut mae'r cynllun yn ymateb yn briodol i effeithiau'r **newid yn yr hinsawdd** o ran; gorlifdir/rheoli dŵr, bioamrywiaeth, mannau gwyrdd/agored a'r amgylchedd hanesyddol, dosbarthiad gofodol a dylunio datblygiadau newydd;
- ≠ bod y **seilwaith** angenrheidiol ar gyfer datblygiad yn rhan annatod o'r cynllun a bod hynny yn cael ei nodi. Dylai hyn, yn fras, ystyried y raddfa, lleoliad, amseriad a chyllid ar gyfer y seilwaith i ddangos digon o sicrwydd y bydd hyn yn medru digwydd dros gyfnod y cynllun.
- ≠ Bod y cynllun adnau yn ddigon **hyblyg** i ymateb i amgylchiadau fel gwaith rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg, datblygiadau yn amcansyniadau'r boblogaeth/tai yn genedlaethol/rhanbarthol a chyfiawnhad ar gyfer y canran y nifer **wrth gefn**;
- ≠ bod y **polisïau strategol** yn y cynllun adnau yn fwy manwl ac eglur, ac yn ymateb yn llewyrchus i'r amcanion a'r strategaeth a ddewisir gyda chyfiawnhad ar sut y caiff hyn ei gyflawni a'r amseru ar gyfer **gweithredu** hyn. Ni ddylai'r cynllun ailadrodd polisi cenedlaethol, ond y mae croesgyfeirio'n ddefnyddiol;
- ≠ bod **fframwaith monitro** effeithiol yn cael ei datblygu.

Dylech gofnodi eich ymateb i'n sylwadau yn eich Adroddiad Ymgynghori.

I gynorthwyo'ch awdurdod i ddatblygu'r CDLI, byddem yn awgrymu cyfarfod gyda'ch swyddogion i drafod ein hymateb. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ymateb hwn, cysylltwch â mi (ar 029 2082 3732).

Yn gywir


**Mark Newey**
Pennaeth Cangen Cynlluniau
Is-adran Gynllunio
Llywodraeth Cymru


***Atodiad (Saesneg yn unig)***